Adferiad yn dilyn pandemig y Coronafeirws: Ynni adnewyddadwy, tai a chanol trefi

Rhagarweiniad

Ysgrifennwyd y papur hwn ym mis Gorffennaf 2020. Mae'n rhan o gyfres o chwe briffiad a gomisiynwyd gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd i lywio a herio strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ailadeiladu ac adfer yn dilyn pandemig y Coronafeirws.

Roedd y briffiadau'n canolbwyntio ar bynciau a ddewiswyd gan Weinidogion. Roeddent yn adeiladu ar ein gwaith i gefnogi trafodaethau bord gron a alwyd ynghyd yn gynharach gan y Gweinidog, ac roeddent yn helpu i ffurfio a goleuo gwaith Grŵp Arbenigol[1] a gyfarfu â'r Gweinidog rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2020. Gwnaethom ysgrifennu casgliadau'r Grŵp, a chyfrannodd hynny at drafodaeth y Cabinet am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael ag effeithiau economaidd a chymdeithasol y pandemig.

Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar gynlluniau i gefnogi ynni adnewyddadwy, tai cymdeithasol a charbon isel, a 'thrawsnewid trefi'. Mae'n ystyried:

- Galluogwr a rhwystrau posibl;
- Cynyddu ynni adnewyddadwy;
- Cynyddu ac uwchraddio'r stoc dai; a
- Newid diben canolfannau trefol.

Negeseuon allweddol

Dylai Llywodraeth Cymru fod yn ystyried sut mae'n defnyddio'r ystod lawn o ysgogiadau polisi sydd ganddi, i siapio datblygiad marchnadoedd mewn meysydd allweddol fel tai carbon isel, ôl-osod neu uwchraddio tai, ac ynni adnewyddadwy.

Hyd yn oed gyda hyn, bydd yn rhaid goresgyn rhai rhwystrau strwythurol sylweddol, yn enwedig o ran capasiti yn y sector cyhoeddus (e.e. mewn timau cynllunio awdurdodau lleol), a'r mecanweithiau ar gyfer llywodraethu a chydlynu ymysg cyrff cyhoeddus.

> **Ar hyn o bryd mae Cymru'n cynhyrchu tua dwywaith cymaint o ynni ag y mae'n ei ddefnyddio...[ac] mae angen cydnabyddedig i ddatgarboneiddio'r broses o gynhyrchu ynni**

O ran cefnogi adnewyddu trefol yn benodol, mae angen ystyried y prosesau a ddefnyddir i ganfod ardaloedd sy'n agored i niwed ac yna eu

[1] Roedd y Grŵp Arbenigwyr yn cynnwys pedwar aelod sefydlog: Torsten Bell (Prif Weithredwr y Resolution Foundation), Rebecca Heaton (pwyllgor newid hinsawdd y DU), Paul Johnson (Cyfarwyddwr y Sefydliad Astudiaethau Cyllid) a Mita Fahnbullah (Prif Weithredwr y Sefydliad Economeg Newydd).

cefnogi'n gyflym i ysgogi cymunedau lleol er mwyn helpu i lunio dyfodol eu hardal. Efallai y bydd hyn yn gofyn am ddull arloesol o roi adnoddau'r sector cyhoeddus ar waith a'u defnyddio.

Galluogwyr a rhwystrau posibl

Wrth geisio cyflawni unrhyw uchelgeisiau sy'n ymwneud â thai, ynni ac adnewyddu trefol, bydd Llywodraeth Cymru eisiau ystyried sut mae'n defnyddio'r ysgogiadau polisi sydd ar gael i fynd i'r afael â rhwystrau a galluogwyr posibl, yn benodol:

- **Polisi datblygu economaidd a sgiliau:** Dylid cynllunio ymdrechion i gyflymu'r broses o ddarparu ynni adnewyddadwy, tai carbon isel a mesurau effeithlonrwydd ynni domestig ar y cyd â pholisïau economaidd a sgiliau. Ym mhob achos, gallai fod cyfleoedd i feithrin datblygiad cadwyni cyflenwi lleol, ac i greu prentisiaethau/hyfforddeiaethau/ rhaglenni sgiliau sy'n cefnogi'r rhain.
- **Cynllunio:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i gyflymu'r broses o gwblhau'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r cynlluniau rhanbarthol a lleol a fydd yn deillio o hyn, ac yn yr un modd i gwblhau gwaith y Comisiwn Seilwaith – sy'n asesu anghenion trafnidiaeth, ynni a seilwaith digidol yng Nghymru. Allweddol fydd cael fframwaith integredig sy'n nodi blaenoriaethau a chyfleoedd ac yn cefnogi'r gwaith o fynd i'r afael â datblygiadau cysylltiedig.
- **Llywodraethu a chapasiti rhanbarthol:** Mae llywodraethu rhanbarthol yng Nghymru yn rhy gymhleth, gan rwystro gwneud penderfyniadau effeithiol ac effeithlon. I gydnabod hyn, cyn yr argyfwng, roedd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i symleiddio strwythurau llywodraethu. Y dyhead ddylai fod i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael drwy ddod â pholisi ar gynllunio, sgiliau, ynni, datblygu economaidd, adnewyddu trefol a darparu gwasanaethau cyhoeddus at ei gilydd. Heb weithredu i symleiddio'r trefniadau llywodraethu presennol, byddant yn gweithredu fel sbardun i wneud penderfyniadau effeithiol ac amserol. Pa bynnag strwythurau newydd a ddaw i'r amlwg, bydd angen gallu priodol arnynt i reoli'n effeithiol y prosesau cynllunio ac adnewyddu trefol y mae'r cynigion yn eu hawgrymu.

Cynyddu ynni adnewyddadwy

Y cyd-destun Cymreig

Ar hyn o bryd mae Cymru'n cynhyrchu tua dwywaith cymaint o ynni ag y mae'n ei ddefnyddio (Llywodraeth Cymru 2019a). O ffynonellau adnewyddadwy y daw tua 25% o gyfanswm yr ynni a gynhyrchir, gyda'r gweddill yn dod o danwydd ffosil (nwy yn bennaf). Cydnabyddir bod angen datgarboneiddio prosesau cynhyrchu ynni, yn enwedig yng ngoleuni polisi ehangach Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, dim ond tri phrosiect ynni adnewyddadwy sydd â chapasiti mwy nag 1MW a gymeradwywyd yn 2018 (Llywodraeth Cymru, 2019a).

Mae caniatâd cynllunio ar gyfer cynhyrchu pŵer dros 350MW wedi'i neilltuo i lywodraeth y DU, er nad oes terfyn uchaf ar gyfer gwynt ar y tir. Mae'n bwysig nodi bod gan Gymru'r pŵer i drwyddedu (neu wrthod trwyddedu) echdynnu glo, olew a nwy newydd ar y tir, yn ogystal â phrosiectau ynni morol.

Er gwaethaf y potensial ar gyfer ynni morol yng Nghymru, mae heriau technolegol a dichonoldeb yn parhau (Uihlein a Magagna, 2016) ac nid yw'n debygol y bydd prosiectau llif llanw neu ynni tonnau yn fasnachol hyfyw yn y dyfodol agos. Mae prosiectau fel Morlyn Llanw Bae Abertawe yn dangos yr anawsterau a'r gost sy'n gysylltiedig â phrosiectau sydd heb eu profi neu brosiectau anaeddfed. Mae morgloddiau llanw yn cynnig gwell rhagolygon ond gallent fod yn niweidiol yn ecolegol (POST, 2013). Mae gwynt ar y môr yn adnodd toreithiog a allai gynhyrchu 2GW yn ychwanegol o bŵer o ddau neu dri phrosiect yn unig o dan yr amgylchiadau iawn (Yr Ymddiriedolaeth Garbon, 2019), ac mae potensial parhaus ar gyfer ffermydd gwynt ar y tir, er bod y rhain yn aml yn ennyn gwrthwynebiad lleol.

Ystyriaethau allweddol

Cyllid: Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid sylweddol i gefnogi ynni adnewyddadwy. Mae'n defnyddio'r pwerau sydd ganddi dros gynllunio, trwyddedu a rhoi cydsyniad i brosiectau ynni i gefnogi datblygiad prosiectau ynni adnewyddadwy.

Roedd ymgais ddiweddar i amcangyfrif costau cynhyrchu digon o drydan adnewyddadwy i gwrdd â'r galw disgwyliedig am ynni yng Nghymru yn 2035 yn awgrymu bod angen buddsoddiad o £25bn, yn ôl prisiau 2018 (Jones, 2018). Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu ariannu hyn yn uniongyrchol a bydd angen iddi ddenu buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy er mwyn gwireddu ei huchelgais. Mae rhai wedi dadlau y dylai ddefnyddio ei phŵer cynnull i archwilio sut y gallai ddenu buddsoddiad gan y sector preifat ac o gronfeydd pensiwn yn y sector cyhoeddus (IWA, 2019).

Potensial ar gyfer 'sectorau twf': Gellid cyfeirio buddsoddiad a chefnogaeth gan y sector cyhoeddus tuag at brosiectau sy'n sicrhau'r enillion mwyaf yng Nghymru ac i Gymru. Mae nifer o feysydd lle'r awgrymwyd y dylai Cymru geisio datblygu marchnadoedd domestig drwy ddefnyddio amrywiaeth o bolisïau (e.e. caffael, cymorth busnes, rhaglenni sgiliau, buddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu, ac ati). Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Gwresogi domestig:** O'i gymharu â gweddill y DU, mae cyfran uwch o eiddo yng Nghymru heb eu cysylltu â'r grid nwy (21%) (CCC, 2017). Gallai fod lle i gysylltu cefnogaeth a buddsoddiad y Llywodraeth mewn gwresogi adnewyddadwy ar gyfer yr eiddo hyn â datblygu'r sylfaen sgiliau a'r cadwyni cyflenwi angenrheidiol; a
- **Gweithgynhyrchu sgiliau uchel, uwch-dechnoleg:** Gallai buddsoddiad cyfalaf hyrwyddo 'ail-leoli' cadwyni cyflenwi ym maes batris a rhannau generaduron er enghraifft. Gallai hefyd feithrin datblygu clystyrau arloesi ym maes technoleg fwy newydd fel ynni'r llanw a gwynt ar y môr sy'n arnofio, gan gydnabod bod y rhain yn dechnolegau anaeddfed ar hyn o bryd.

Uwchraddio'r grid trydan: Un rhwystr i brosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa lai, ac i leoli prosiectau ar raddfa fwy yng nghefn gwlad Cymru, yw capasiti'r grid dosbarthu a throsglwyddo trydan. Nid yw hwn yn faes lle y mae cyfrifoldeb wedi'i ddatganoli, ond bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried a yw am geisio dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch buddsoddi yng nghapasiti'r grid a sut mae am wneud hynny.

Cynyddu ac uwchraddio'r stoc dai

Y cyd-destun Cymreig

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi ymdrech ac adnoddau sylweddol i'r gwaith o ehangu'r stoc dai. Mae wedi pwysleisio tai cymdeithasol a fforddiadwy ar draws ystod o ddaliadaethau, effeithlonrwydd ynni, a dulliau adeiladu newydd o ansawdd uchel. Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, mae nifer y tai sy'n cael eu cwblhau yng

Nghymru yn dal yn is na'r angen a ragwelwyd ac a amcangyfrifwyd (Llywodraeth Cymru, 2019b).

Mae Dulliau Adeiladu Modern [2] wedi cael eu hyrwyddo oherwydd ystyrir eu bod yn cynnig y gallu i ddarparu tai'n gyflymach ac maent yn defnyddio gwahanol gadwyni cyflenwi o'u cymharu â dulliau traddodiadol o adeiladu tai. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad a wnaed yn yr Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy (2019) i barhau i dreialu dulliau adeiladu modern fel ffordd o gynyddu graddfa a chyflymder y ddarpariaeth tai fforddiadwy yng Nghymru.

Cafodd pandemig y Coronafeirws effaith ddifrifol ac ar unwaith ar y sector adeiladu yn y DU, gyda'r mesurau cyfyngiadau symud a chau cadwyni cyflenwi'n arwain at gau safleoedd yn eang (Staton, 2020). Mae hyn wedi cael effaith ddilynol ar adeiladu tai, ac wrth i'r capasiti barhau wedi'i leihau er gwaethaf llacio'r cyfyngiadau symud, mae'n bosibl y bydd parhad yn y tymor hir yn yr arafu o ran capasiti i adeiladu tai (Hammond, 2020). Fodd bynnag, dadleuwyd na fydd cyfyngu ar adeiladu tai newydd yn cael effaith sylweddol ar y cyflenwad cyffredinol, o ystyried y cyfraniad bychan y mae cartrefi newydd yn ei wneud i'r stoc dai gyffredinol (Cheshire a Hilber, 2020).

Yn natganiad haf y Canghellor cyflwynwyd Grant Cartrefi Gwyrdd newydd – sef cynllun grant ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni domestig – y bydd cartrefi yng Nghymru yn gymwys i wneud cais amdano. Mae treth stamp yn dreth ddatganoledig – mae gan Gymru Dreth Trafodiadau Tir – felly nid yw'r toriad a gyhoeddwyd yn berthnasol yn awtomatig yng Nghymru.

Ystyriaethau allweddol

Capasiti, cydlynu a llywodraethu: Fel y nodwyd uchod, bydd y fframwaith cynllunio, llywodraethu rhanbarthol a chapasiti lleol i gyd yn allweddol i sicrhau bod cynnydd yn y cyflenwad tai a gwelliannau yn y stoc dai bresennol.

Llunio'r farchnad: Efallai y bydd lle i Lywodraeth Cymru ystyried gosod uchelgeisiau neu dargedau newydd ar gyfer safonau ar gyfer proffil ynni tai yng Nghymru.

Mae Safonau Ansawdd Tai Cymru – sy'n berthnasol i dai cymdeithasol – i bob pwrpas yn dod i ben ddiwedd y flwyddyn. Gallai diweddaru'r rhain a chyflwyno safonau effeithlonrwydd ynni uwch fod yn fecanwaith ar gyfer cyflymu gwelliannau yn y stoc tai cymdeithasol.

Gellid hefyd ystyried gosod uchelgeisiau ar gyfer proffil ynni'r holl dai newydd a rhai sy'n bodoli eisoes yng Nghymru.

Creu cymhellion: Gellid ategu safonau newydd drwy ddefnyddio'r systemau cynllunio a threth datganoledig i gymell buddsoddiad preifat ochr yn ochr â chynlluniau presennol y llywodraeth.

Dylai'r cynllun Grant Cartrefi Gwyrdd helpu i ysgogi ôl-osod y stoc dai bresennol yng Nghymru (yn amodol ar weld y manylion). Mae profiad hyd yma yn awgrymu bod angen cynllunio cymhellion fel hyn mewn ffordd sy'n ceisio mynd i'r afael â rhwystrau ymddygiad (Green Finance Institute, 2020). Felly, efallai y bydd Llywodraeth Cymru am hyrwyddo'r cynllun newydd yn rhagweithiol a chynorthwyo perchnogion tai a landlordiaid i gael gafael ar y cyllid; yn enwedig ymysg grwpiau incwm isel.

Newid diben adeiladau presennol: Yn Lloegr, mae cyfraith cynllunio yn caniatáu addasu adeiladau swyddfa yn dai o dan hawliau datblygu a ganiateir. Fodd bynnag, mae llawer

[2] 'Term mantell yw dulliau adeiladu modern, sy'n cynnwys amrywiol ddulliau adeiladu a thechnolegau a all ddisodli dulliau traddodiadol (e.e. defnyddio datblygiadau technolegol/digidol arloesol megis argraffu 3D, droniau a roboteg ar y safle) neu eu hategu (e.e. cynhyrchu cydrannau ar gyfer adeiladau hybrid sy'n lleihau'r adnoddau sydd eu hangen ar y safle a/neu sy'n cyflymu'r broses gydosod). Fel y cyfryw, gellir defnyddio technegau adeiladau modern ar y safle neu oddi arno. Llywodraeth Cymru, 2020, t.14)

o'r datblygiadau dilynol wedi cael eu beirniadu fel datblygiadau is-safonol gyda'r potensial o droi'n 'slymiau' (Evans, 2018). Gallai'r addasiadau hyn leihau ansawdd tai yn gyffredinol, yn enwedig i'r bobl dlotaf. Er y gallai Cymru ystyried defnyddio hawliau datblygu a ganiateir yn fwy cyfyngedig, ni fydd hyn o reidrwydd yn arwain at ddatblygu o safon uwch oni fo gan dimau cynllunio lleol y gallu i orfodi safonau'n llym.

Newid diben canolfannau trefol

Effaith pandemig y Coronafeirws ar ganolfannau manwerthu a chanolfannau trefol

Cyn y pandemig, roedd newidiadau sylweddol eisoes ym maes manwerthu, gan gynnwys anawsterau ariannol a nifer o fethdaliadau ymysg manwerthwyr mawr. Mae'n ymddangos bod effaith y pandemig wedi cyflymu'r duedd hon.

Fodd bynnag, gellir gwrthdroi rhai o'r tueddiadau yr ydym wedi'u gweld dros y misoedd diwethaf wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi, ac mae'n rhaid aros i weld beth fydd yn digwydd i batrymau galw, a beth fydd hyn yn ei olygu i'r effeithiau ar fanwerthwyr.

O ganlyniad, nid yw'n hysbys a fydd newid yn rôl manwerthwyr 'angor'. Felly, bydd yn bwysig nad yw'r ymateb polisi'n seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch newidiadau ymddygiad yn y dyfodol, os gellid gwrthdroi'r rhain.

Yn yr un modd, ni fydd yr effaith yn unffurf, felly bydd angen i unrhyw ymyriad ymateb i feysydd sydd mewn angen a'u targedu. Mae'n debygol y bydd y risg yn cael ei chrynhoi yng nghanol y trefi hynny a oedd yn agored i niwed cyn yr argyfwng presennol, tra bydd llai o effaith ar eraill, os o gwbl.

Ystyriaethau allweddol

Dulliau adnewyddu: Mae cynllunio cymdogaethau da yn gofyn am integreiddio polisi ac ymarfer ar draws amrywiaeth o feysydd gan gynnwys cynllunio, trafnidiaeth, tai, gwasanaethau cymunedol a thwf economaidd lleol.

Ac er bod cymdogaethau sydd wedi'u dylunio'n dda yn cael eu hystyried yn amcan polisi pwysig, anwybyddir hyn yn aml yn ystod y broses gynllunio, caffael a datblygu, yn rhannol oherwydd diffyg cytundeb ynghylch beth mae gwerth dylunio ar raddfa cymdogaeth yn ei olygu yn ymarferol (CaCHE, 2018).

Mae'n debygol bod rhai canol trefi eisoes yn integreiddio ystod o wasanaethau a hybiau cymunedol. Mae trefi marchnad llai yng nghanolbarth a gorllewin Cymru yn aml yn cyflawni amrywiaeth o swyddogaethau ar gyfer cymuned wledig ehangach (er enghraifft, marchnadoedd da byw a gwasanaethau arbenigol) ochr yn ochr â gweinyddiaeth gyhoeddus, iechyd a gofal cymdeithasol ac addysg. Dylid astudio'r ffyrdd y mae'r defnyddiau hyn yn rhyngweithio a dysgu oddi wrthynt.

Ymgysylltu â'r gymuned: Derbynnir yn gyffredinol y dylai adfywio neu adnewyddu trefol gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, er bod hyn yn amrywio'n ymarferol. Er mwyn sicrhau bod cynlluniau adnewyddu'n cael eu derbyn, bydd yn bwysig ymgysylltu â phobl leol drwy gydol y broses (Lawson a Kearns, 2010). Gallai cyhoeddi data am unedau gwag a chymell eu hailddefnyddio hefyd alluogi grwpiau cymunedol i'w defnyddio (Kim et al., 2020).

Yn olaf, bydd angen i lunwyr polisi fod yn sensitif i natur amrywiol 'hybiau cymunedol'. Ochr yn ochr â'r neuadd gymunedol draddodiadol, gallai'r rhain gynnwys mannau addoli, llyfrgelloedd, neu wasanaethau a ddarperir gan y trydydd sector. Mae cyfleusterau hamdden gan gynnwys tafarndai, bariau, caffis a bwytai hefyd yn cyflawni swyddogaeth gymunedol, ac ar hyn o bryd maent dan bwysau sylweddol o ganlyniad i'r pandemig.

Ffynonellau

CaCHE (UK Collaborative Centre for Housing Evidence). (2018). **Design value at the neighbourhood scale: What does it mean and how do we measure it?** Cyrchwyd o: https://housingevidence.ac.uk/publications/design-value-at-the-neighbourhood-scale/

Cambridge Centre for Housing & Planning Research (2020). **Infrastructure, place making and sustainability: A report for Places for People.** Cyrchwyd o: https://www.cchpr.landecon.cam.ac.uk/Research/Start-Year/2019/housing_market_wider_economy/infrastructure_placemaking_sustainability?platform=hootsuite

Yr Ymddiriedolaeth Garbon. (2019). Potensial ar gyfer Ynni Gwynt ar y Môr yng Nghymru yn y Dyfodol. Cyrchwyd o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/potensial-ar-gyfer-ynni-gwynt-ar-y-mor-yn-y-dyfodol.pdf

Cheshire, P. a Hilber, C. (2020). **COVID-19 and housing: while prices may fall, homes will remain unaffordable.** LSE. Cyrchwyd o: https://blogs.lse.ac.uk/politicsandpolicy/covid-19-housing/

Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd. (2017). **Building a low-carbon economy in Wales: Setting Welsh carbon targets**. Cyrchwyd o: https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2017/12/CCC-Building-a-low-carbon-economy-in-Wales-Setting-Welsh-climate-targets.pdf

Evans, J. (26 Rhagfyr 2018). **'Slums of the future?' UK office-to-homes policy sparks fears.** Financial Times. https://www.ft.com/content/48fbe55c-ffb2-11e8-ac00-57a2a826423e

Green Finance Institute. (2020). **Financing energy efficient buildings: the path to retrofit at scale.** Cyrchwyd o: https://www.greenfinanceinstitute.co.uk/wp-content/uploads/2020/06/Financing-energy-efficient-buildings-the-path-to-retrofit-at-scale.pdf

Hammond, G. (9 Mehefin 2020). **Housebuilding slowdown to last at least a year, warns UK builder**. Financial Times. Cyrchwyd o https://www.ft.com/content/d04a1528-2594-4f3b-abc8-4171ff62d09e

Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy (2019). **Adolygiad annibynnol o'r cyflenwad tai fforddiadwy: adroddiad.** Cyrchwyd o: https://llyw.cymru/adolygiad-annibynnol-or-cyflenwad-o-dai-fforddiadwy-adroddiad

Sefydliad Materion Cymreig. (2019). **A plan for Wales' renewable energy future: Essential actions to re-energise Wales by 2035.** Cyrchwyd o: https://www.iwa.wales/wp-content/media/2019/03/IWA_Energy_WP6_Digital-2.pdf

Jones, C. (2018). **The Economic Costs and Benefits of Renewable Energy Transition in Wales.** IWA. https://www.iwa.wales/wp-content/media/2018/04/IWA_WP3.2_EconomicCostsandBenefits-4.pdf

Kim, G; Newman, G. a Jiang, B. (2020). **Urban regeneration: Community engagement process for vacant land in declining cities.** Cities 102. https://doi.org/10.1016/j.cities.2020.102730

Lawson, L. a Kearns, A. (2010). **Community engagement in regeneration: are we getting the point?** Journal of Housing and the Built Environment 25. https://link.springer.com/article/10.1007/s10901-009-9168-7

Swyddfa Seneddol Gwyddoniaeth a Thechnoleg [POST]. (2013). **Environmental Impact of Tidal Energy Barrages. POST Note, Rhif 435, Mehefin 2013**. Cyrchwyd o: http://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/POST-PN-435/POST-PN-435.pdf

Staton, B. (2020). **UK construction activity collapses in April.** Financial Times, 6 Mai 2020.

Transport for New Homes. (2020). **Garden villages and garden towns: which will we actually build? Garden village dream or tarmac estate?** Cyrchwyd o: https://www.transportfornewhomes.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/garden-village-visions.pdf

Uihlein, A., a Magagna, D. (2016). **Wave and tidal current energy – A review of the current state of research beyond technology.** Renewable and Sustainable Energy Reviews, 58, 1070-1081.

Llywodraeth Cymru. (2019a**). Cynhyrchu Ynni yng Nghymru, 2018** https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/cynhyrchu-ynni-chymru- 2018.pdf

Llywodraeth Cymru. (2019b) **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 2020-2040. Drafft Ymgynghori: 7 Awst – 1 Tachwedd 2019.** Cyrchwyd o: https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-08/Draft%20National%20Development%20Framework.pdf

Llywodraeth Cymru. (2020). **Ailddychmygu'r ffordd y caiff tai cymdeithasol eu hadeiladu yng Nghymru: Strategaeth Dulliau Adeiladu Modern ar gyfer Tai Cymdeithasol.** Cyrchwyd o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/strategaeth-adeiladu-tai-cymdeithasol

Manylion yr awduron
Dan Bristow, Manon Roberts, Jack Price ac Andrew Connell – Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Ein gwaith arall ar bandemig y Coronafeirws

Rydym wedi cynnal amrywiaeth o brosiectau i ddarparu tystiolaeth annibynnol i wneuthurwyr polisïau a gwasanaethau cyhoeddus ar yr adferiad economaidd a chymdeithasol yn dilyn pandemig y Coronafeirws. Yn ogystal â phapurau a baratowyd ar gyfer y Grŵp Arbenigwyr a alwyd ynghyd gan Weinidogion Llywodraeth Cymru, rydym wedi arwain asesiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth ar Gefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer cynllun Llywodraeth y DU ar 'Rebuilding a Resilience Britain' dan arweiniad Syr Patrick Vallance; wedi cyhoeddi casgliadau chwe bord gron arbenigol ; ar adferiad yn dilyn y pandemig; wedi cyhoeddi dadansoddiad o ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Cymru Ein Dyfodol'; ac wedi cynhyrchu cyfres o flogiau ar faterion allweddol, gan gynnwys unigrwydd yn ystod y cyfyngiadau ar symud, y goblygiadau i'r economi yng Nghymru, pwysigrwydd ysgogiad gwyrdd i gynorthwyo adferiad, a dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol.

Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y Gwasanaeth Sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith yr Hyn sy'n Gweithio y DU.I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r

Athro Steve Martin

+44 0 29 2087 5202
steve.martin@wcpp.org.uk